CANOLFAN ADDYSG AWYR AGORED STOREY ARMS

# DATGANIAD PREIFATRWYDD DATA

**EGWYDDORION CYFREDINOL**

Mae Canolfan Addysg Awyr Agored Storey Arms yn eiddo Cyngor Caerdydd ac yn cael ei weithredu ganddo. Caiff ein cyfrifoldebau am ddiogelu data eu rheoli gan y Cyngor. I gael mwy o wybodaeth am ofynion diogelu data'r Cyngor, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data, Ystafell 357, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW neu yn diogeludata@caerdydd.gov.uk

Felly nod yr hysbysiad hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am y data rydym yn ei ddal amdanoch chi, sut rydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau o ran hyn a'r mesurau diogelu sydd ar waith i ddiogelu eich data.

**PAM RYDYM YN CASGLU DATA PERSONOL**

Mae Canolfan Storey Arms yn casglu data am sawl rheswm. Fel arfer, bydd y sail gyfreithiol i ni ddefnyddio eich data personol yn un neu'n fwy o'r canlynol:

- Mae angen i ni brosesu eich data personol i fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol
- Mae angen i ni brosesu eich data personol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd
- Mae angen i ni brosesu eich data personol i fodloni ein rhwymedigaethau contract i chi
- Mae angen i ni brosesu eich data personol i ddiogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data neu fod dynol arall
- Byddwn yn prosesu eich data personol os ydych wedi rhoi caniatâd i ni wneud hynny.

**PA DDATA PERSONOL A DDELIR GENNYM A SUT RYDYM YN EI GAEL**

**Gweinyddu Archebion**

Pan fyddwch yn cysylltu â ni i ymholi am archebu ac i gwblhau archeb yng Nghanolfan Storey Arms, byddwn yn gofyn i chi roi'r wybodaeth ganlynol:

- Enw
- Enw'r sefydliad (os yw'n briodol)
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad post
- Gwybodaeth arall yn ôl yr angen

Bydd hyn yn ein galluogi i gyfathrebu â chi am eich ymholiad ac anfon gwybodaeth briodol atoch.

**Cyfleoedd Marchnata**

Pan fyddwch yn cysylltu â ni i ymholi am archebu ac i gwblhau archeb, byddwn yn gofyn i chi a ydych yn dymuno i ni gadw eich manylion er mwyn cysylltu â chi os daw cyfleoedd archebu priodol ar gael. Os byddwch yn rhoi caniatâd, byddwn yn cadw'r wybodaeth ganlynol ar gofnod:

- Enw
- Enw'r sefydliad (os yw'n briodol)
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad post
- Dewis dull cyfathrebu

Gallwch chi dynnu eich caniatâd i dderbyn yr wybodaeth hon yn ôl ar unrhyw adeg.

**Manylion y Cleient**

Byddwn yn gofyn i drefnydd y cwrs am wybodaeth bersonol cyfranogwyr y cwrs er mwyn sicrhau eu diogelwch a'u lles yn ystod y cwrs. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys:

- Enw
- Cyfeiriad
- Perthnasau agos (enw a'r berthynas)
- Rhifau ffôn cyswllt brys – ddydd a nos
- Dyddiad geni
- Alergeddau/meddyginiaeth/angen deietegol
- Statws diogelu presennol yn erbyn tetanws
- Meddygfa – enw a'r dref/ddinas
- Rhif ffôn y meddyg
- Lefel gallu nofio

Ar gyfer rhai cyrsiau, gallen ni hefyd ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- Rhif adnabod ymgeisydd Hyfforddiant Mynydd, galwedigaeth
- Gwybodaeth Gwobr Dug Caeredin – rhif adnabod, enw'r uned

Ni fyddwn yn rhannu'r wybodaeth hon ag unrhyw un, ac eithrio gweithwyr meddygol proffesiynol os bydd angen triniaeth ar rywun neu os oes gofyniad cyfreithiol arnom i wneud hynny.

Byddwn yn gwneud copïau papur o fanylion y cleient at ddefnydd ein Tîm Hyfforddi yn ystod y cwrs. Rydym yn hysbysu ein Tîm Domestig o unrhyw ofynion deietegol arbennig o fewn y grŵp.

**Ffotograffau/fideo**

Rydym yn defnyddio camerâu y mae Canolfan Storey Arms yn berchen arnynt fel y gall grwpiau dynnu ffotograffau/fideo yn ystod eu hymweliad. Rydym yn lawrlwytho delweddau/fideo i gyfrifiadur yn y ganolfan i'n galluogi i'w rhoi ar DVD sy'n cael eu rhoi wedyn i drefnydd y cwrs. Yn achos cyrsiau i unigolion (e.e. Gwobr Aur Breswyl Dug Caeredin), rydym yn gofyn i gyfranogwyr ddod â'u DVD eu hunain.

Er mwyn gwneud hyn, rhaid i chi gwblhau ein ffurflen ganiatâd ffotograffiaeth a gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

**PA MOR HIR BYDDWN YN CADW'CH GWYBODAETH**

Gan fod Canolfan Storey Arms yn eiddo'r Cyngor sydd hefyd yn ei gweithredu, mae sawl rhwymedigaeth gyfreithiol arnom sy'n effeithio ar hyd yr amser y mae angen i ni storio eich data. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rheolau Gweithdrefn Ariannol Cyngor Caerdydd (i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn gweinyddu materion ariannol yr awdurdod yn briodol).
- Deddf Cyfyngiadau 1980 (ar gyfer gofynion hawliadau atebolrwydd cyhoeddus)

Mae Cyngor Caerdydd yn seilio manylion ei Atodlen Cadw Corfforaethol ar y gofynion hyn.

Rydym hefyd yn dilyn arfer gorau presennol y diwydiant addysg awyr agored fel a nodir yng Nghanllawiau Cenedlaethol Panel yr Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored. Ceir manylion y rhain yma:
https://oeapng.info/

**Cadw data GWEINYDDU ARCHEBION**

Data ar gyfer ymholiadau nad ydynt yn arwain at archebu a lle na roddir caniatâd ar gyfer cysylltu yn y dyfodol – byddwn yn dileu data yn ystod y tymor ar ôl dyddiad yr ymholiad.

Caiff data ar gyfer ymholiadau sy'n arwain at archeb eu storio'n electronig am 4 blynedd o ddyddiad gorffen y cwrs. Ar ôl yr amser hwn, byddwn yn dileu'r data yn ystod y tymor sy'n dilyn dyddiad yr ymholiad. Byddwn yn dileu copïau papur ar ôl dau dymor yn dilyn dyddiad gorffen y cwrs.

**Cadw data CYFLEOEDD MARCHNATA**

Data lle rydych wedi rhoi caniatâd i dderbyn hysbysiadau marchnata – byddwn yn storio hwn yn electronig. Byddwn yn adolygu'r data hwn gyda chi o dro i dro i gadarnhau eich caniatâd parhaus neu i'w ddileu ar unwaith os byddwch yn tynnu eich caniatâd yn ôl.

**Cadw data MANYLION CLEIENTIAID**

Diben y data rydym yn ei gasglu am gyfranogwyr cyrsiau yw ein helpu i ofalu amdanoch chi'n briodol yn ystod eich ymweliad. At ddibenion yswiriant atebolrwydd, mae angen i ni gadw'r data hwn am y cyfnodau canlynol:

- Oedolion ........................ 7 mlynedd
- Plant ............................. tan eu pen-blwydd yn 25 oed
- Plant sy'n Derbyn Gofal .. 99 mlynedd

Mewn achosion lle gwneir haliad yswiriant atebolrwydd, byddwn yn cadw data yn unol â gofynion gweithdrefnau Rheoli Risg Cyngor Caerdydd.

**Cadw FFOTOGRAFFAU/FIDEO**

Byddwn yn cadw ffotograffau/fideo ar gyfrifiadur yng Nghanolfan Storey Arms am dri thymor. Ar ôl yr amser hwn, byddwn yn eu dileu nhw heblaw am y rheiny y byddwn yn dewis eu cadw at ddefnydd marchnata.

**EICH HAWLIAU**

Fel gwrthrych data, mae gennych lawer o hawliau ynglŷn â'ch data personol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hawl mynediad
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl
- Yr hawl i symud data
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Hawliau o ran penderfyniadau awtomataidd

**SEFYDLIADAU Y GALLWN NI RANNU EICH GWYBODAETH Â NHW**

Bydd Canolfan Storey Arms yn trin eich gwybodaeth yn gyfrinachol. Fodd bynnag, gellir ei rannu ag adrannau perthnasol yng Nghyngor Caerdydd neu â gweithwyr meddygol proffesiynol yn achos salwch/anaf neu pan fo gofyniad cyfreithiol i wneud hynny.

Mae'r wybodaeth a ddelir yn electronig gennym yn cael ei dal ar weinyddion diogel Cyngor Caerdydd a, lle bo'n briodol, ar weinyddion diogel darparwr ein meddalwedd rheoli gweinyddiaeth archebion , "Cinolla Software Limited" (www.cinolla.com).

Cinolla yw ein darparwr trydydd parti ar gyfer ein meddalwedd rheoli gweinyddiaeth archebion. Wrth ddewis y darparwr hwn, rydym wedi bodloni gofynion mewnol Cyngor Caerdydd o ran preifatrwydd data sy'n cael ei storio ar gwmwl.

**CYSYLLTU Â NI**

Mae gennych hawl i ymholi am y data rydym yn ei ddal amdanoch chi. Os hoffech chi wneud hyn, cysylltwch â ni trwy ffonio 01874 623598 neu e-bostio storeyarms@caerdydd.gov.uk

Os dymunwch dynnu eich caniatâd yn ôl i ni brosesu/storio eich data, cysylltwch â ni trwy ffonio 01874 623598 neu e-bostio storeyarms@caerdydd.gov.uk a byddwn yn prosesu eich cais cyn gynted â phosib.

I gael mwy o wybodaeth am sut caiff eich data personol ei reoli, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data:

**Swyddog Diogelu Data**
Tîm Llywodraethu Gwybodaeth
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd CF10 4UW

diogeludata@caerdydd.gov.uk